

CYNIDR, sant (fl. yn y 6ed ganrif).

Enw: Cynidr
Rhiant: Geingar ferch Brychan
Rhiant: Gwladys ferch Brychan
Rhiant: Gwynillyw
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Hywel David Emanuel

Ychydig o hanes bywyd y sant hwn sydd ar gael. Dywed y ' De Situ Brecheniauc ' (Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, 313-5) a'r ' Cognacio Brychan ' (op. cit., 315-8) amdano mai mab oedd i Geingair, ferch Brychan, ond ni sonnir yno am enw ei dad. Ar y llaw arall, dengys y ' Generatio Sancti Egweni ' (op. cit., 319) mai mab oedd Cynidr i **Wynillyw** a Gwladys, ac felly yn prawd i **Gadog Sant**. Y tebygolwydd yw mai Cynidr Sant yw'r Keneder y sonnir amdano ym 'muchedd' **Cadog** fel un o'r seintiau a gefnogaï **Gadog** yn ei anghydfod â'r **brenin Arthur**. Dengys yr hanes mai yn sir Frycheiniog y gwnaeth Cynidr ei brif waith, ac yno ceir fod eglwysi Llangynidr, Aberystywyth, Llanllwchaiarn, Caerfyrddin, a'r Clas-ar-Wy i gyd ar y cychwyn wedi eu henwi arno. Gwelir olion traddodiad Cynidr hefyd yn Kenderchurch a Winforton yn Swydd Henffordd. Cedwir ei wyl fel rheol ar 8 Rhagfyr.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*, 258-61

Archaeologia Cambrensis, 1898, 216-21

Wade-Evans; *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 313-9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q17984465

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Emanuel, H. D., (1953). CYNIDR, sant (fl. yn y 6ed ganrif).. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CYNI-APG-0500>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodol i'r
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government